- (3) Rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o'r adroddiad a lunnir o dan is-adran (2) gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.’.



**Vaughan Gething**

5

Schedule 1, page 13, line 15, leave out—

‘as its chairing member,

(b) a person appointed as deputy to the chairing member, and

(c) at least 7 but not more than 9 other persons appointed as its other members.

(2) The members are to be appointed by the Welsh Ministers.

(3) A member holds office for such period, and on such terms and conditions, as may be specified in the terms of the appointment, but this is subject to the following provisions of this Part.

(4) The period of office specified in a member’s terms of appointment may not exceed 4 years.

(5) A person who has held office as a member may be reappointed, once only (and subparagraph (4) applies in relation to the appointment).’

and insert—

‘by the Welsh Ministers as its chairing member,

(b) a person appointed by the Welsh Ministers as deputy to the chairing member,

(c) at least 6 but not more than 8 other persons appointed by the Welsh Ministers,

(d) its chief executive (see paragraph 7), and

(e) where one or more trade unions are recognised by the Body, a person appointed as its associate member (see paragraph [*third paragraph to be inserted by amendment 7*]).

(2) In this Schedule, the members appointed by the Welsh Ministers are collectively referred to as “non-executive members”; and any reference in this Schedule to the exercise by the non-executive members of a function is a reference to the non-executive members exercising the function as a committee of the Body.’.

Atodlen 1, tudalen 13, llinell 14, hepgorer—

‘yn aelod-gadeirydd iddo,

(b) person a benodir yn ddirprwy i’r aelod-gadeirydd, ac

(c) o leiaf 7 ond dim mwy na 9 person arall a benodir yn aelodau eraill iddo.

(2) Gweinidogion Cymru sydd i benodi’r aelodau.

(3) Mae aelod yn dal swydd am unrhyw gyfnod, ac ar unrhyw delerau ac amodau, a bennir yn nhelerau’r penodiad, ond mae hyn yn ddarostyngedig i’r darpariaethau a ganlyn yn y Rhan hon.

(4) Ni chaniateir i gyfnod y swydd a bennir yn nhelerau penodiad aelod fod yn hwy na 4 blynedd.

(5) Caniateir i berson sydd wedi dal swydd fel aelod gael ei ailbenodi, unwaith yn unig (ac mae is-baragraff (4) yn gymwys mewn perthynas â’r penodiad).’

a mewnosoder—



'gan Weinidogion Cymru yn aelod-gadeirydd iddo,

- (b) person a benodir gan Weinidogion Cymru yn ddirprwy i'r aelod-gadeirydd,
- (c) o leiaf 6 ond dim mwy nag 8 person arall a benodir gan Weinidogion Cymru,
- (d) ei brif weithredwr (gweler paragraff 7), ac
- (e) pan fo un neu ragor o undebau llafur wedi eu cydnabod gan y Corff, berson a benodir yn aelod cyswllt iddo (gweler paragraff [y trydydd paragraff sydd i'w fewnosod gan welliant 7]).

- (2) Yn yr Atodlen hon, cyfeirir ar y cyd at yr aelodau a benodir gan Weinidogion Cymru fel "aelodau anweithredol"; ac mae unrhyw gyfeiriad yn yr Atodlen hon at arfer swyddogaeth gan yr aelodau anweithredol yn gyfeiriad at yr aelodau anweithredol yn arfer y swyddogaeth fel pwyllgor o'r Corff.'

**\*Angela Burns**

48

**Gyda chefnogaeth/ Supported by: Caroline Jones**

Schedule 1, page 13, line 18, leave out 'Welsh Ministers' and insert 'National Assembly for Wales'.

Atodlen 1, tudalen 13, llinell 17, hepgorer 'Gweinidogion' a mewnosoder 'Cynulliad Cenedlaethol'.

**Vaughan Gething**

6

Schedule 1, page 13, line 27, leave out ', or holding office, as a' and insert 'as a non-executive'.

Atodlen 1, tudalen 13, llinell 26, hepgorer ', neu ddal swydd fel aelod,' a mewnosoder 'anweithredol'.

**Vaughan Gething**

7

Schedule 1, page 13, after line 28, insert –

*'Terms of non-executive membership*

- [ ] (1) A non-executive member of the Citizen Voice Body holds office for such period, and on such terms and conditions, as may be specified in the terms of appointment, but this is subject to sub-paragraphs (2) and (4) and paragraph (*second paragraph to be inserted by this amendment*).
- (2) The period of office specified in a non-executive member's terms of appointment may not exceed 4 years.
- (3) A person who has held office as a non-executive member may be reappointed as a non-executive member once only (and sub-paragraph (2) applies in relation to the appointment).
- (4) A non-executive member may resign from office by giving written notice to the Welsh Ministers.



- (5) The Citizen Voice Body may, with the approval of the Welsh Ministers –
- (a) pay its non-executive members remuneration, expenses and allowances;
  - (b) pay pensions to, or in respect of, persons who have been non-executive members of the Body, and amounts for or towards provision of pensions to, or in respect of, persons who have been non-executive members of the Body.

*Removal of non-executive members from office*

- [ ] (1) The Welsh Ministers may by written notice to a non-executive member of the Citizen Voice Body remove that person from office if the Welsh Ministers are satisfied –
- (a) that the person is unfit to continue as a member, or
  - (b) that the person is unable or unwilling to exercise the functions of a member.
- (2) The Welsh Ministers may by written notice to a non-executive member of the Body suspend that person from office if it appears to them that there may be grounds to exercise the power in sub-paragraph (1).
- (3) A person ceases to be a non-executive member of the Body if the person becomes a member of the Body's staff.

*Appointment of the associate member*

- [ ] (1) Sub-paragraph (2) applies where –
- (a) one or more trade unions are recognised by the Citizen Voice Body, and
  - (b) the position of associate member is unoccupied.
- (2) The non-executive members must invite each of the trade unions recognised by the Body to nominate an eligible candidate for appointment as the Body's associate member.
- (3) The invitation must specify the period within which a nomination is to be made.
- (4) The non-executive members must appoint a person, from among the eligible candidates nominated during the period specified under sub-paragraph (3), as the Body's associate member.
- (5) A person is an eligible candidate for appointment as the Body's associate member, only if the person is –
- (a) a member of the Body's staff, and
  - (b) a member of a trade union recognised by the Body.
- (6) In this Part –
- “recognised”, in relation to a trade union, has the meaning given by the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992 (c. 52);
- “trade union” has the meaning given by that Act.

*Terms of associate membership etc.*

- [ ] (1) An associate member of the Citizen Voice Body is not eligible to vote in any proceedings of the Body.





- (2) An associate member of the Body holds office for such period, and on such terms and conditions, as may be specified by the non-executive members in the terms of appointment, but this is subject to sub-paragraphs (3) and (5) and paragraph [fifth paragraph to be inserted by this amendment].
- (3) The period of office specified in an associate member's terms of appointment may not exceed 4 years.
- (4) A person who has held office as an associate member may be reappointed under paragraph [third paragraph to be inserted by this amendment] as an associate member (and sub-paragraph (3) applies in relation to the appointment).
- (5) An associate member of the Body may resign from office by giving written notice to the non-executive members.
- (6) The Citizen Voice Body may pay an associate member expenses.

*Removal of associate member from office*

- [ ] (1) The non-executive members may by written notice to the associate member of the Citizen Voice Body remove that person from office as the associate member if satisfied –
- (a) that the person is unfit to continue as a member, or
  - (b) that the person is unable or unwilling to exercise the functions of a member.
- (2) The non-executive members may by written notice to the associate member of the Body suspend that person from office as the associate member, if it appears to them that there may be grounds to exercise the power in sub-paragraph (1).
- (3) An associate member ceases to hold office if the member ceases to be an eligible candidate for appointment as an associate member (see paragraph [third paragraph to be inserted by this amendment](5)).'

Atodlen 1, tudalen 13, ar ôl llinell 27, mewnosoder –

*'Telerau aelodaeth anweithredol*

- [ ] (1) Mae aelod anweithredol o Gorff Llais y Dinesydd yn dal swydd am unrhyw gyfnod, ac ar unrhyw delerau ac amodau, a bennir yn nhelerau'r penodiad, ond mae hyn yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2) a (4) a pharagraff [yr ail baragraff sydd i'w fewnosod gan y gwelliant hwn].
- (2) Ni chaiff cyfnod y swydd a bennir yn nhelerau penodiad aelod anweithredol fod yn hwy na 4 blynedd.
- (3) Caniateir i berson sydd wedi dal swydd fel aelod anweithredol gael ei ailbenodi'n aelod anweithredol unwaith yn unig (ac mae is-baragraff (2) yn gymwys mewn perthynas â'r penodiad).
- (4) Caiff aelod anweithredol ymddiswyddo drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru.
- (5) Caiff Corff Llais y Dinesydd, gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru –
- (a) talu tâl, treuliau a lwfansau i'w aelodau anweithredol;



- (b) talu pensiynau i bersonau sydd wedi bod yn aelodau anweithredol o'r Corff, neu mewn cysylltiad â phersonau o'r fath, a symiau am ddarparu pensiynau neu tuag at ddarparu pensiynau i bersonau sydd wedi bod yn aelodau anweithredol o'r Corff, neu mewn cysylltiad â phersonau o'r fath.

*Diswyddo aelodau anweithredol*

- [ ] (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy hysbysiad ysgrifenedig i aelod anweithredol o Gorff Llais y Dinesydd ddiswyddo'r person hwnnw os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni—
- (a) bod y person yn anaddas i barhau'n aelod, neu
- (b) nad yw'r person yn gallu arfer swyddogaethau aelod neu ei fod yn anfodlon gwneud hynny.
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy hysbysiad ysgrifenedig i aelod anweithredol o'r Corff atal y person hwnnw dros dro o'i swydd os yw'n ymddangos iddynt y gall fod sail dros arfer y pŵer yn is-baragraff (1).
- (3) Mae person yn peidio â bod yn aelod anweithredol o'r Corff os daw'r person yn aelod o staff y Corff.

*Penodi'r aelod cyswllt*

- [ ] (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys pan—
- (a) bo un neu ragor o undebau llafur wedi eu cydnabod gan Gorff Llais y Dinesydd, a
- (b) bo swydd yr aelod cyswllt yn wag.
- (2) Rhaid i'r aelodau anweithredol wahodd pob un o'r undebau llafur a gydnabyddir gan y Corff i enwebu ymgeisydd cymwys i'w benodi'n aelod cyswllt y Corff.
- (3) Rhaid i'r gwahoddiad bennu'r cyfnod y mae enwebiad i'w wneud ynddo.
- (4) Rhaid i'r aelodau anweithredol benodi person, o blith yr ymgeiswyr cymwys a enwebir yn ystod y cyfnod a bennir o dan is-baragraff (3), fel aelod cyswllt y Corff.
- (5) Nid yw person yn ymgeisydd cymwys i'w benodi'n aelod cyswllt y Corff, ond os yw'r person—
- (a) yn aelod o staff y Corff, a
- (b) yn aelod o undeb llafur a gydnabyddir gan y Corff.
- (6) Yn y Rhan hon—

mae i "cydnabod", mewn perthynas ag undeb llafur, yr ystyr a roddir i "recognised" gan Ddeddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (p. 52);

mae i "undeb llafur" yr ystyr a roddir i "trade union" gan y Ddeddf honno.

*Telerau aelodaeth gyswllt etc.*

- [ ] (1) Nid yw aelod cyswllt o Gorff Llais y Dinesydd yn gymwys i bleidleisio mewn unrhyw drafodion gan y Corff.





- (2) Mae aelod cyswllt o'r Corff yn dal swydd am unrhyw gyfnod, ac ar unrhyw delerau ac amodau, a bennir gan yr aelodau anweithredol yn nhelerau'r penodiad, ond mae hyn yn ddarostyngedig i is-baragraffau (3) a (5) a pharagraff [*y pumed paragraff sydd i'w fewnosod gan y gwelliant hwn*].
- (3) Ni chaiff cyfnod y swydd a bennir yn nhelerau penodiad aelod cyswllt fod yn hwy na 4 blynedd.
- (4) Caniateir i berson sydd wedi dal swydd fel aelod cyswllt gael ei ailbenodi o dan baragraff [*y trydydd paragraff sydd i'w fewnosod gan y gwelliant hwn*] yn aelod cyswllt (ac mae is-baragraff (3) yn gymwys mewn perthynas â'r penodiad).
- (5) Caiff aelod cyswllt o'r Corff ymddiswyddo drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r aelodau anweithredol.
- (6) Caiff Corff Llais y Dinesydd dalu treuliau i aelod cyswllt.

*Diswyddo'r aelod cyswllt*

- [ ] (1) Caiff yr aelodau anweithredol drwy hysbysiad ysgrifenedig i aelod cyswllt Corff Llais y Dinesydd ddiswyddo'r person hwnnw fel yr aelod cyswllt os ydynt wedi eu bodloni –
- (a) bod y person yn anaddas i barhau'n aelod, neu
  - (b) nad yw'r person yn gallu arfer swyddogaethau aelod neu ei fod yn anfodlon gwneud hynny.
- (2) Caiff yr aelodau anweithredol drwy hysbysiad ysgrifenedig i aelod cyswllt y Corff atal y person hwnnw dros dro o'i swydd fel yr aelod cyswllt, os yw'n ymddangos iddynt y gall fod sail dros arfer y pŵer yn is-baragraff (1).
- (3) Mae aelod cyswllt yn peidio â dal swydd os yw'r aelod yn peidio â bod yn ymgeisydd cymwys i'w benodi'n aelod cyswllt (gweler paragraff [*y trydydd paragraff sydd i'w fewnosod gan y gwelliant hwn*](5)).'

**Vaughan Gething**

8

Schedule 1, page 13, line 30, leave out paragraph 4.

Atodlen 1, tudalen 13, llinell 29, hepgorer paragraff 4.

**\*Angela Burns**

49

**Gyda chefnogaeth/ Supported by: Caroline Jones**

Schedule 1, page 13, line 31, leave out 'Welsh Ministers' and insert 'National Assembly for Wales'.

Atodlen 1, tudalen 13, llinell 30, hepgorer 'Weinidogion' a mewnosoder 'Gynulliad Cenedlaethol'.

**Vaughan Gething**

9

Schedule 1, page 14, line 2, leave out paragraph 5.

Atodlen 1, tudalen 14, llinell 2, hepgorer paragraff 5.



**\*Angela Burns** 50

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Caroline Jones**

Schedule 1, page 14, line 2, leave out 'Welsh Ministers' and insert 'National Assembly for Wales'.  
Atodlen 1, tudalen 14, llinell 2, hepgorer 'Gweinidogion' a mewnosoder 'Cynulliad Cenedlaethol'.

**\*Angela Burns** 51

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Caroline Jones**

Schedule 1, page 14, line 6, leave out 'Welsh Ministers' and insert 'National Assembly for Wales'.  
Atodlen 1, tudalen 14, llinell 7, hepgorer 'Gweinidogion' a mewnosoder 'Cynulliad Cenedlaethol'.

**\*Angela Burns** 52

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Caroline Jones**

Schedule 1, page 14, line 7, leave out 'Welsh Ministers' and insert 'National Assembly for Wales'.  
Atodlen 1, tudalen 14, llinell 8, hepgorer 'Weinidogion' a mewnosoder 'Gynulliad Cenedlaethol'.

**Vaughan Gething** 10

Schedule 1, page 14, line 10, leave out paragraph 6.  
Atodlen 1, tudalen 14, llinell 10, hepgorer paragraff 6.

**\*Angela Burns** 53

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Caroline Jones**

Schedule 1, page 14, line 10, leave out 'Welsh Ministers' and insert 'National Assembly for Wales'.  
Atodlen 1, tudalen 14, llinell 10, hepgorer 'Gweinidogion' a mewnosoder 'Cynulliad Cenedlaethol'.

**Vaughan Gething** 11

Schedule 1, page 14, line 18, leave out 'Citizen Voice Body must appoint a person as its' and insert 'non-executive members of the Citizen Voice Body must appoint a person as the Body's'.  
Atodlen 1, tudalen 14, llinell 19, hepgorer 'Corff' a mewnosoder 'aelodau anweithredol Corff'.

**Vaughan Gething** 12

Schedule 1, page 14, line 20, leave out 'Body' and insert 'non-executive members'.  
Atodlen 1, tudalen 14, llinell 21, hepgorer 'y Corff' a mewnosoder 'yr aelodau anweithredol'.



**\*Angela Burns** 54

**Gyda chefnogaeth/ Supported by: Caroline Jones**

Schedule 1, page 14, line 23, leave out 'Welsh Ministers' and insert 'National Assembly for Wales'.

Atodlen 1, tudalen 14, llinell 23, hepgorer 'Gweinidogion' a mewnosoder 'Cynulliad Cenedlaethol'.

**\*Angela Burns** 56

**Gyda chefnogaeth/ Supported by: Caroline Jones**

Schedule 1, page 14, line 31, leave out 'Welsh Ministers' and insert 'National Assembly for Wales'.

Atodlen 1, tudalen 14, llinell 30, hepgorer 'Gweinidogion' a mewnosoder 'Cynulliad Cenedlaethol'.

**\*Angela Burns** 55

**Gyda chefnogaeth/ Supported by: Caroline Jones**

Schedule 1, page 14, after line 31, insert –

*'Indemnity cover*

[ ] The Welsh Ministers must make regulations for the purpose of providing that, in prescribed circumstances, the Citizen Voice Body must hold indemnity cover as prescribed in the regulations for the benefit of its staff and volunteers. '.

Atodlen 1, tudalen 14, ar ôl llinell 30, mewnosoder –

*'Sicrwydd indemnïad*

[ ] Rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau at ddibenion darparu bod yn rhaid bod gan Gorff Llais y Dinesydd, o dan amgylchiadau rhagnodedig, sicrwydd indemnïad fel y rhagnodir yn y rheoliadau er budd ei staff a'i wirfoddolwyr. '.

**\*Angela Burns** 57

**Gyda chefnogaeth/ Supported by: Caroline Jones**

Schedule 1, page 16, line 10, leave out 'may' and insert 'must'.

Atodlen 1, tudalen 16, llinell 10, hepgorer 'Caiff Gweinidogion' a mewnosoder 'Rhaid i Weinidogion'.

**\*Angela Burns** 58

**Gyda chefnogaeth/ Supported by: Caroline Jones**



Schedule 1, page 16, line 11, after 'appropriate', insert 'and ensure that the Citizen Voice Body has sufficient resources to undertake its functions effectively'.

Atodlen 1, tudalen 16, llinell 12, ar ôl 'briodol', mewnosoder 'a sicrhau bod gan Gorff Llais y Dinesydd ddigon o adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol'.

### **Vaughan Gething**

13

Schedule 1, page 17, line 3, leave out paragraph 19 and insert –

- [ ] (1) This paragraph applies in relation to each statement of accounts submitted to the Auditor General for Wales by the Citizen Voice Body under paragraph 18(3)(b).
- (2) The Auditor General for Wales must examine, certify and report on the statement of accounts.
- (3) The Auditor General for Wales must, before the expiry of the period of 4 months beginning with the day on which the statement of accounts is submitted ("the 4-month period"), lay before the National Assembly for Wales –
- (a) a copy of the certified statement and report, or
  - (b) if it is not reasonably practicable to comply with paragraph (a), a statement to that effect, which must include reasons as to why this is the case.
- (4) Where the Auditor General for Wales has laid a statement under sub-paragraph (3)(b) in relation to a statement of accounts, the Auditor General must lay a copy of the certified statement and report before the National Assembly for Wales as soon as reasonably practicable after the expiry of the 4-month period.
- (5) In complying with sub-paragraph (2) the Auditor General for Wales must, in particular, examine and report on whether, in the opinion of the Auditor General, the expenditure to which the accounts relate has been incurred lawfully and in accordance with the authority which governs it.'

Atodlen 1, tudalen 17, llinell 3, hepgorer paragraff 19 a mewnosoder –

- [ ] (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas â phob datganiad o gyfrifon a gyflwynir i Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Gorff Llais y Dinesydd o dan baragraff 18(3)(b).
- (2) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru archwilio'r datganiad o gyfrifon, ei ardystio ac adrodd arno.
- (3) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru, cyn diwedd y cyfnod o 4 mis sy'n dechrau â'r diwrnod pan gyflwynir y datganiad o gyfrifon ("y cyfnod o 4 mis"), osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru –
- (a) copi o'r datganiad ardystiedig a'r adroddiad, neu
  - (b) os nad yw'n rhesymol ymarferol cydymffurfio â pharagraff (a), ddatganiad i'r perwyl hwnnw, y mae rhaid iddo gynnwys rhesymau o ran pam mae hyn yn wir.



- (4) Pan fo Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi gosod datganiad o dan is-baragraff (3)(b) mewn perthynas â datganiad o gyfrifon, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol osod copi o'r datganiad ardystiedig a'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod o 4 mis.
- (5) Wrth gydymffurfio ag is-baragraff (2) rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn benodol, archwilio a aed, ym marn yr Archwilydd Cyffredinol, i'r gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef, yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n llywodraethu'r gwariant hwnnw, ac adrodd ar hynny.'

**Vaughan Gething**

14

Schedule 1, page 17, after line 30, insert –

“non-executive member” has the meaning given by paragraph 2(2).'

Atodlen 1, tudalen 17, llinell 32, ar ôl 'hon', mewnosoder –

'mae i "aelod anweithredol" yr ystyr a roddir gan baragraff 2(2).'

**\*Angela Burns**

40

**Gyda chefnogaeth/ Supported by: Caroline Jones**

Section 13, page 8, line 6, after 'services', insert –

'and

- (b) establish regional bodies reflecting the geographical areas of partnership boards established under section 68 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 to ensure that the Citizen Voice Body –
- (i) represents the interests of people in all parts of Wales, and
  - (ii) is accessible to people in all parts of Wales'.

Adran 13, tudalen 8, llinell 7, ar ôl 'cymdeithasol', mewnosoder –

'a

- (b) sefydlu cyrff rhanbarthol i adlewyrchu ardaloedd daearyddol byrddau partneriaeth a sefydlwyd o dan adran 68 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i sicrhau bod Corff Llais y Dinesydd –
- (i) yn cynrychioli buddiannau pobl ym mhob rhan o Gymru, a
  - (ii) yn hygyrch i bobl ym mhob rhan o Gymru'.

**Angela Burns**

19

Section 13, page 8, after line 6, insert –



- '(3) In making arrangements to comply with subsection (2), the Citizen Voice Body must in particular have regard to the importance of ensuring, where appropriate, face-to-face engagement between its staff, or any other persons acting on its behalf, and any individuals from whom views are being sought.'

Adran 13, tudalen 8, ar ôl llinell 7, mewnosoder –

- '(3) Wrth wneud trefniadau i gydymffurfio ag is-adran (2), rhaid i Gorff Llais y Dinesydd roi sylw'n benodol i bwysigrwydd sicrhau, pan fo'n briodol, ymgysylltu wyneb yn wyneb rhwng ei staff, neu unrhyw bersonau eraill sy'n gweithredu ar ei ran, ac unrhyw unigolion y ceisir barn oddi wrthynt.'

### **Vaughan Gething**

59

Section 14, page 8, after line 13, insert –

- '(3) The statement of policy must in particular specify how, in exercising its functions, the Citizen Voice Body proposes to ensure that –
- (a) the Body represents the interests of people in all parts of Wales,
  - (b) the Body is accessible to people throughout Wales, and
  - (c) members of the Body's staff and any other persons acting on the Body's behalf are able to engage effectively with people throughout Wales.'

Adran 14, tudalen 8, ar ôl llinell 14, mewnosoder –

- '(3) Rhaid i'r datganiad polisi bennu'n benodol sut y mae Corff Llais y Dinesydd, wrth arfer ei swyddogaethau, yn bwriadu sicrhau –
- (a) bod y Corff yn cynrychioli buddiannau pobl ym mhob rhan o Gymru,
  - (b) bod y Corff yn hygyrch i bobl ledled Cymru, ac
  - (c) bod aelodau o staff y Corff ac unrhyw bersonau eraill sy'n gweithredu ar ran y Corff yn gallu ymgysylltu'n effeithiol â phobl ledled Cymru.'

### **Rhun ap Iorwerth**

75

Section 14, page 8, after line 13, insert –

- '(3) The statement of policy must in particular specify how, in exercising its functions, the Citizen Voice Body proposes to ensure that –
- (a) the Body represents the interests of people in all parts of Wales,
  - (b) the Body is accessible to people throughout Wales,
  - (c) members of the Body's staff and any other persons acting on the Body's behalf are able to engage effectively with people throughout Wales, and
  - (d) the Body has an effective permanent presence on a regional level throughout Wales.'



Adran 14, tudalen 8, ar ôl llinell 14, mewnosoder –

- '(3) Rhaid i'r datganiad polisi bennu'n benodol sut y mae Corff Llais y Dinesydd, wrth arfer ei swyddogaethau, yn bwriadu sicrhau –
- (a) bod y Corff yn cynrychioli buddiannau pobl ym mhob rhan o Gymru,
  - (b) bod y Corff yn hygyrch i bobl ledled Cymru,
  - (c) bod aelodau o staff y Corff ac unrhyw bersonau eraill sy'n gweithredu ar ran y Corff yn gallu ymgysylltu'n effeithiol â phobl ledled Cymru, a
  - (d) bod gan y Corff bresenoldeb parhaol effeithiol ar lefel ranbarthol drwy Gymru gyfan.'

**\*Angela Burns**

**41**

**Gyda chefnogaeth/ Supported by: Caroline Jones**

Section 15, page 8, after line 21, insert –

- '(c) in relation to any issues which affect all or more than one area of Wales, the Welsh Ministers, and
- (d) any other person or body who makes decisions or exercises functions on behalf of a local authority or NHS body.'

Adran 15, tudalen 8, ar ôl llinell 22, mewnosoder –

- '(c) Gweinidogion Cymru, mewn perthynas ag unrhyw faterion sy'n effeithio ar bob ardal o Gymru neu fwy nag un o'r ardaloedd hynny, a
- (d) unrhyw berson neu gorff arall sy'n gwneud penderfyniadau neu sy'n arfer swyddogaethau ar ran awdurdod lleol neu gorff GIG.'

**Rhun ap Iorwerth**

**76**

Section 15, page 8, after line 21, insert –

- '(c) the Welsh Ministers.'

Adran 15, tudalen 8, ar ôl llinell 22, mewnosoder –

- '(c) Gweinidogion Cymru.'

**Vaughan Gething**

**1**

Section 15, page 8, after line 23, insert –

- '(4) The Welsh Ministers must issue guidance to the persons mentioned in subsection (2), in relation to representations made under this section.
- (5) Those persons must have regard to the guidance.'





Adran 15, tudalen 8, ar ôl llinell 24, mewnosoder –

- '(4) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i'r personau a grybwyllir yn is-adran (2), mewn perthynas â sylwadau a gyflwynir o dan yr adran hon.
- (5) Rhaid i'r personau hynny roi sylw i'r canllawiau.'

**\*Angela Burns**

42

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Caroline Jones**

Section 15, page 8, after line 23, insert –

- '(4) The recipient of any representation made under subsection (1) must prepare a response to each representation made.
- (5) A response under subsection (4) must state –
  - (a) the extent to which the recipient of the representation accepts each representation made, and
  - (b) any actions that the recipient of the representation intends to take in relation to each representation made.
- (6) As soon as reasonably practicable, the recipient of the representation must publish the response prepared under subsection (4) on their website and send their response to the Citizen Voice Body.
- (7) The Welsh Ministers must prepare and publish guidance directed at the persons listed in subsection (2) in relation to representations made under this section.
- (8) Guidance prepared and published under subsection (7) must, in particular, set out how the persons listed in subsection (2) must take into account and respond to representations made by the Citizen Voice Body.
- (9) The persons listed in subsection (2) must act in accordance with the guidance published under subsection (7) when complying with subsections (3), (4), (5) and (6).'

Adran 15, tudalen 8, ar ôl llinell 24, mewnosoder –

- '(4) Rhaid i'r sawl sy'n cael unrhyw sylwadau a wneir o dan is-adran (1) lunio ymateb i bob sylw a wneir.
- (5) Rhaid i ymateb o dan is-adran (4) nodi –
  - (a) y graddau y mae'r sawl sy'n cael y sylwadau yn derbyn pob sylw a wneir, a
  - (b) unrhyw gamau y mae'r sawl sy'n cael y sylwadau yn bwriadu eu cymryd mewn perthynas â phob sylw a wneir.
- (6) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, rhaid i'r sawl sy'n cael y sylwadau gyhoeddi'r ymateb a lunnir o dan is-adran (4) ar ei wefan ac anfon ei ymateb at Gorff Llais y Dinesydd.
- (7) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi canllawiau wedi'u cyfeirio at y personau a restrir yn is-adran (2) mewn perthynas â sylwadau a wneir o dan yr adran hon.





- (8) Rhaid i ganllawiau a gaiff eu llunio a'u cyhoeddi o dan is-adran (7), yn benodol, nodi sut y mae'n rhaid i'r personau a restrir yn is-adran (2) ystyried sylwadau a wneir gan Gorff Llais y Dinesydd ac ymateb iddynt.
- (9) Rhaid i'r personau a restrir yn is-adran (2) weithredu yn unol â'r canllawiau a gyhoeddir o dan is-adran (7) wrth gydymffurfio ag is-adrannau (3), (4), (5) a (6).

## **Rhun ap Iorwerth**

77

Section 15, page 8, after line 23, insert—

- '(4) The recipient of any representation made under subsection (1) must prepare a response to each representation made. The response must state—
  - (a) the extent to which the recipient accepts the representation, and
  - (b) any actions that the recipient intends to take in relation to the representation.
- (5) As soon as reasonably practicable, the recipient must publish the response on their website and send the response to the Citizen Voice Body.'

Adran 15, tudalen 8, ar ôl llinell 24, mewnosoder—

- '(4) Rhaid i'r sawl sy'n cael unrhyw sylwadau a wneir o dan is-adran (1) lunio ymateb i bob sylw a wneir. Rhaid i'r ymateb nodi—
  - (a) y graddau y mae'r sawl sy'n cael y sylwadau yn eu derbyn, a
  - (b) unrhyw gamau y mae'r sawl sy'n cael y sylwadau yn bwriadu eu cymryd mewn perthynas â'r sylwadau hynny.
- (5) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, rhaid i'r sawl sy'n cael y sylwadau gyhoeddi'r ymateb ar ei wefan ac anfon yr ymateb at Gorff Llais y Dinesydd.'

## **\*Angela Burns**

20

### **Gyda chefnogaeth / Supported by: Caroline Jones**

Section 16, page 9, after line 14, insert—

- '() In exercising its functions under this section, the Citizen Voice Body must have regard to the importance of ensuring, where appropriate, face-to-face engagement between its staff, or any other persons acting on its behalf, and any individuals to whom any assistance under this section is being or may be provided.'

Adran 16, tudalen 9, ar ôl llinell 14, mewnosoder—

- '() Wrth arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon, rhaid i Gorff Llais y Dinesydd roi sylw i bwysigrwydd sicrhau, pan fo'n briodol, ymgysylltu wyneb yn wyneb rhwng ei staff, neu unrhyw bersonau eraill sy'n gweithredu ar ei ran, ac unrhyw unigolion y darperir unrhyw gynhorthwy o dan yr adran hon iddynt neu y gellir ei ddarparu iddynt.'



**\*Angela Burns**

**43**

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Caroline Jones**

Section 16, page 9, after line 14, insert –

- ( ) Subsections (*[second subsection to be inserted by this amendment]*) and (*[third subsection to be inserted by this amendment]*) apply in respect of any concern as defined in the National Health Service (Concerns, Complaints and Redress Arrangements) (Wales) Regulations 2011 and any complaint as defined in the Social Services Complaints Procedure (Wales) Regulations 2014.
- ( ) The Welsh Ministers must by regulations provide for a system which enables a joint investigation to be carried out by an NHS body and a local authority into any concern or complaint raised by or on behalf of any person which relates to the provision of both health services and social services.
- ( ) The regulations in subsection (*[second subsection to be inserted by this amendment]*) must provide for –
  - (a) timescales within which a complaint or concern must be received,
  - (b) the investigation process,
  - (c) the reporting process, and
  - (d) redress.
- ( ) Regulations under subsection (*[second subsection to be inserted by this amendment]*) may not be made unless a draft of the regulations has been laid before, and approved by resolution of, the National Assembly for Wales.
- ( ) Regulations under subsection (*[second subsection to be inserted by this amendment]*) must be made no later than six months from the date upon which this section comes into force.’.

Adran 16, tudalen 9, ar ôl llinell 14, mewnosoder –

- ( ) Mae is-adrannau (*[yr ail is-adran sydd i'w mewnosod gan y gwelliant hwn]*) a (*[y drydedd is-adran sydd i'w mewnosod gan y gwelliant hwn]*) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw bryder fel y'i diffinnir yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 ac unrhyw gŵyn fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 .
- ( ) Rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddarparu ar gyfer system sy'n galluogi corff GIG ac awdurdod lleol i gynnal ymchwiliad ar y cyd i unrhyw bryder neu gŵyn a godir gan unrhyw berson neu ar ran unrhyw berson ynghylch darparu gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.
- ( ) Rhaid i'r rheoliadau yn is-adran (*[yr ail is-adran sydd i'w mewnosod gan y gwelliant hwn]*) ddarparu ar gyfer –
  - (a) y terfynau amser y mae'n rhaid i gŵyn neu bryder ddod i law,
  - (b) proses yr ymchwiliad,
  - (c) y broses adrodd, a
  - (d) iawn.



- ( ) Ni chaniateir gwneud rheoliadau o dan is-adran ([*yr ail is-adran sydd i'w mewnosod gan y gwelliant hwn*]) oni bai bod drafft o'r rheoliadau wedi'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.
- ( ) Rhaid gwneud Rheoliadau o dan is-adran ([*yr ail is-adran i'w mewnosod gan y gwelliant hwn*]) heb fod yn hwyrach na chwe mis o'r dyddiad y daw'r adran hon i rym.'

## **Vaughan Gething**

2

Section 18, page 9, after line 33, insert—

- '(4) A person who refuses to disclose information in response to a request made under subsection (1) must give the Citizen Voice Body its reasons in writing for not disclosing the information.'

Adran 18, tudalen 9, ar ôl llinell 33, mewnosoder—

- '(4) Rhaid i berson sy'n gwrthod datgelu gwybodaeth mewn ymateb i gais a wneir o dan is-adran (1) roi i Gorff Llais y Dinesydd ei resymau yn ysgrifenedig dros beidio â datgelu'r wybodaeth.'

## **Vaughan Gething**

3

Page 9, after line 33, insert a new section—

*'Access to premises by Citizen Voice Body: duty to have regard to code of practice*

### **[ ] Code of practice on access to premises**

- (1) The Welsh Ministers must prepare and publish a code of practice about—
  - (a) requests made by the Citizen Voice Body for access to premises for the purpose of seeking the views of individuals in respect of health services or social services, and
  - (b) where access to those premises has been agreed, engagement with individuals at those premises for that purpose.
- (2) "Premises" in subsection (1) means any premises at which health services or social services are being provided.
- (3) The Citizen Voice Body must have regard to the code.
- (4) Each local authority and NHS body must have regard to the code (so far as the code is relevant) in exercising any function that relates to the provision of health services or social services.
- (5) In preparing the code the Welsh Ministers must consult—
  - (a) the Citizen Voice Body;
  - (b) each local authority;
  - (c) each NHS body;
  - (d) such other persons as the Welsh Ministers consider appropriate.'



Tudalen 9, ar ôl llinell 33, mewnosoder adran newydd –

*'Mynediad i fangreoedd gan Gorff Llais y Dinesydd: dyletswydd i roi sylw i god ymarfer*

**[ ] Cod ymarfer ar fynediad i fangreoedd**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi cod ymarfer ynghylch –
  - (a) ceisiadau a wneir gan Gorff Llais y Dinesydd i gael mynediad i fangreoedd at ddiben ceisio barn unigolion mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol, a
  - (b) pan fo mynediad i'r mangreoedd hynny wedi ei gytuno, ymgysylltu ag unigolion yn y mangreoedd hynny at y diben hwnnw.
- (2) Ystyr "mangreoedd" yn is-adran (1) yw unrhyw fangreoedd y darperir gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol ynddynt.
- (3) Rhaid i Gorff Llais y Dinesydd roi sylw i'r cod.
- (4) Rhaid i bob awdurdod lleol a chorff GIG roi sylw i'r cod (i'r graddau y mae'r cod yn berthnasol) wrth arfer unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol.
- (5) Wrth lunio'r cod rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag –
  - (a) Corff Llais y Dinesydd;
  - (b) pob awdurdod lleol;
  - (c) pob corff GIG;
  - (d) unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.'

**Vaughan Gething**

4

Page 9, after line 33, insert a new section –

*'Co-operation in the exercise of functions*

**[ ] Co-operation between the Body, local authorities and NHS bodies**

- (1) The Citizen Voice Body, local authorities and NHS bodies must make arrangements to co-operate with a view to supporting each other in the exercise of their relevant functions.
- (2) For the purposes of subsection (1) "relevant functions" –
  - (a) in relation to the Body, means its functions under sections 13(2) and 14(1);
  - (b) in relation to local authorities and NHS bodies, means their functions under section 17(1).'

Tudalen 9, ar ôl llinell 33, mewnosoder adran newydd –



*'Cydwethredu wrth arfer swyddogaethau*

**[ ] Cydwethredu rhwng y Corff, awdurdodau lleol a chyrff y GIG**

- (1) Rhaid i Gorff Llais y Dinesydd, awdurdodau lleol a chyrff y GIG wneud trefniadau i gydweithredu gyda golwg ar gefnogi ei gilydd wrth arfer eu swyddogaethau perthnasol.
- (2) At ddibenion is-adran (1) ystyr "swyddogaethau perthnasol" –
  - (a) mewn perthynas â'r Corff, yw ei swyddogaethau o dan adrannau 13(2) a 14(1);
  - (b) mewn perthynas ag awdurdodau lleol a chyrff y GIG, yw eu swyddogaethau o dan adran 17(1).'

**\*Angela Burns**

**44**

**Gyda chefnogaeth/ Supported by: Caroline Jones**

Page 9, after line 33, insert a new section –

**[ ] Duty to provide information, advice and training to volunteers and staff of Citizen Voice Body**

- (1) The Citizen Voice Body must secure the provision of information, advice and training to its volunteers and staff.
- (2) In exercising its functions under this section, the Citizen Voice Body must have regard to any guidance given from time to time by the Welsh Ministers.'

Tudalen 9, ar ôl llinell 33, mewnosoder adran newydd –

**[ ] Dyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant i wirfoddolwyr a staff Corff Llais y Dinesydd**

- (1) Rhaid i Gorff Llais y Dinesydd sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant yn cael eu darparu i'w wirfoddolwyr a'i staff.
- (2) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon, rhaid i Gorff Llais y Dinesydd roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd.'

**\*Angela Burns**

**45**

**Gyda chefnogaeth/ Supported by: Caroline Jones**

Page 9, after line 33, insert a new section –

**[ ] Entry to premises**

- (1) The Citizen Voice Body may access, enter and view premises for the purpose of exercising any of its functions.
- (2) The Welsh Ministers must prepare and publish a code of practice regarding access, entry and viewing of premises which must be followed by the Citizen Voice Body.



- (3) The code of practice prepared and published in accordance with subsection (2) must provide—
  - (a) an exhaustive list of the circumstances in which the Citizen Voice Body may access, enter and view premises;
  - (b) that the Citizen Voice Body may only access, enter and view premises in order to seek the views of individuals in respect of health or social services;
  - (c) an exhaustive list of the circumstances in which the Citizen Voice Body may access, enter and view Excluded Premises upon the invitation of an individual for the purpose of seeking the views of individuals in respect of health or social services;
  - (d) for how the Citizen Voice Body may engage with individuals during the course of accessing, entering and viewing premises, including Excluded Premises where subsection (c) applies;
  - (e) that each local authority and NHS body must ensure that—
    - (i) it permits the Citizen Voice Body to access, enter and view any of its premises, including Excluded Premises where subsection (c) applies, and
    - (ii) any third party provider of health and social care on behalf of the local authority or NHS body is obliged to permit the Citizen Voice Body to access, enter and view premises and, where subsection (c) applies, Excluded Premises.
- (4) The Citizen Voice Body, NHS bodies and local authorities must comply with the code of practice prepared and published in accordance with subsection (2).
- (5) In preparing the code of practice in accordance with subsections (2) and (3), the Welsh Ministers must consult—
  - (a) the Citizen Voice Body,
  - (b) each local authority,
  - (c) each NHS body, and
  - (d) such other persons as the Welsh Ministers consider appropriate.
- (6) Before publishing the code of practice in accordance with subsection (2), the Welsh Ministers must lay a copy of the draft code of practice before the National Assembly for Wales.
- (7) If, before the end of the 40 day period, the National Assembly for Wales resolves not to approve the draft of the code, the Welsh Ministers must not issue the code in the form of that draft.
- (8) If no such resolution is made before the end of that period—
  - (a) the Welsh Ministers must issue the code (or revised code) in the form of the draft, and
  - (b) the code (or revised code) comes into force on the date appointed by order of the Welsh Ministers.
- (9) The 40 day period—





- (a) begins on the day on which the draft is laid before the National Assembly for Wales, and
  - (b) does not include any time during which the National Assembly for Wales is dissolved or is in recess for more than four days.
- (10) Subsection (7) does not prevent a new draft of a proposed code from being laid before the National Assembly for Wales.
- (11) References in this section to a proposed code include a proposed revised code.
- (12) In this section-
- (a) "excluded premises" means-
    - (i) any private domestic dwelling, or
    - (ii) any private room in a publicly or privately owned nursing or care home or other premises to which other residents and patients do not have access.
  - (b) "premises" means any premises at which health or social services are being provided but excluding any Excluded Premises.'

Tudalen 9, ar ôl llinell 33, mewnosoder adran newydd –

#### **[ ] Mynd i mewn i fangre**

- (1) Caiff Corff Llais y Dinesydd gael mynediad i fangre, mynd i mewn i fangre a'i gweld at ddiben arfer unrhyw rai o'i swyddogaethau.
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi cod ymarfer ynghylch cael mynediad i fangre, mynd i mewn i fangre a'i gweld, a rhaid i Gorff Llais y Dinesydd ddilyn y cod hwnnw.
- (3) Rhaid i'r cod ymarfer a gaiff ei lunio a'i gyhoeddi yn unol ag adran (2) ddarparu –
  - (a) rhestr gynhwysfawr o'r amgylchiadau y caiff Corff Llais y Dinesydd gael mynediad i fangre, mynd i mewn i fangre a'i gweld;
  - (b) na chaiff Corff Llais y Dinesydd ond cael mynediad i fangre, mynd i mewn i fangre a'i gweld er mwyn ceisio barn unigolion mewn perthynas â gwasanaethau iechyd neu gymdeithasol;
  - (c) rhestr gynhwysfawr o'r amgylchiadau y caiff Corff Llais y Dinesydd fynediad i Fangre wedi'i Heithrio, mynd i mewn iddi a'i gweld drwy wahoddiad unigolyn at ddiben ceisio barn unigolion mewn perthynas â gwasanaethau iechyd neu gymdeithasol;
  - (d) sut y caiff Corff Llais y Dinesydd ymgysylltu ag unigolion yn ystod cael mynediad i fangre, mynd i mewn i fangre a'i gweld, gan gynnwys Mangre wedi'i Heithrio pan fo is-adran (c) yn gymwys;
  - (e) bod yn rhaid i bob awdurdod lleol a chorff GIG sicrhau –
    - (i) ei fod yn caniatáu i Gorff Llais y Dinesydd gael mynediad i fangre, mynd i mewn i fangre a'i gweld, gan gynnwys Mangre wedi'i Heithrio pan fo is-adran (c) yn gymwys, a





- (ii) bod unrhyw ddarparwr iechyd a gofal cymdeithasol trydydd parti ar ran yr awdurdod lleol neu'r corff GIG yn gorfod caniatáu i Gorff Llais y Dinesydd gael mynediad i fangre, mynd i mewn i fangre a'i gweld a, phan fo is-adran (c) yn gymwys, Mangre wedi'i Heithrio.
- (4) Rhaid i Gorff Llais y Dinesydd, cyrff GIG ac awdurdodau lleol gydymffurfio â'r cod ymarfer a gaiff ei lunio a'i gyhoeddi yn unol ag is-adran (2).
- (5) Wrth lunio'r cod ymarfer yn unol ag is-adrannau (2) a (3), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag—
  - (a) Corff Llais y Dinesydd,
  - (b) pob awdurdod lleol,
  - (c) pob corff GIG, a
  - (d) unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.
- (6) Cyn cyhoeddi'r cod ymarfer yn unol ag is-adran (2), rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o'r cod ymarfer drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- (7) Os bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, cyn diwedd y cyfnod o 40 diwrnod, yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r cod ymarfer drafft, ni chaniateir i Weinidogion Cymru ddyroddi'r cod ar ffurf y drafft hwnnw.
- (8) Os na chaiff penderfyniad o'r fath ei wneud cyn diwedd y cyfnod hwnnw—
  - (a) rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r cod (neu'r cod diwygiedig) ar ffurf y drafft, a
  - (b) daw'r cod (neu'r cod diwygiedig) i rym ar y diwrnod a drefnwyd drwy orchymyn Gweinidogion Cymru.
- (9) O ran y cyfnod o 40 diwrnod—
  - (a) bydd yn dechrau ar y diwrnod y gosodir y drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a
  - (b) nid yw'n cynnwys unrhyw adeg pan fo Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei ddiddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod.
- (10) Nid yw is-adran (7) yn atal drafft newydd o god arfaethedig rhag cael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- (11) Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at god arfaethedig yn cynnwys cod diwygiedig arfaethedig.
- (12) Yn yr adran hon—
  - (a) ystyr "mangre wedi'i heithrio" yw—
    - (i) unrhyw annedd ddomestig breifat, neu
    - (ii) unrhyw ystafell breifat mewn cartref nyrsio neu gartref gofal sy'n eiddo cyhoeddus neu breifat neu fangre arall nad oes gan breswylwyr na chleifion fynediad iddi.
  - (b) ystyr "mangre" yw unrhyw fangre lle darperir gwasanaethau iechyd neu gymdeithasol ac eithrio unrhyw Fangre wedi'i Heithrio. '.



**\*Angela Burns** 46

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Caroline Jones**

Page 9, after line 33, insert a new section –

**[ ] Duty to co-operate with the Citizen Voice Body**

Each NHS body and local authority must co-operate with the Citizen Voice Body in the exercise of its functions and must, upon the request of the Citizen Voice Body, assist the Citizen Voice Body in collecting independent feedback from people who are receiving, or may receive, health services or social services.’.

Tudalen 9, ar ôl llinell 33, mewnosoder adran newydd –

**[ ] Dyletswydd i gydweithredu â Chorff Llais y Dinesydd**

Rhaid i bob corff GIG ac awdurdod lleol gydweithredu â Chorff Llais y Dinesydd wrth arfer ei swyddogaethau a rhaid i bob un, ar gais Corff Llais y Dinesydd, gynorthwyo Corff Llais y Dinesydd wrth gasglu adborth annibynnol gan bobl sy’n cael, neu a all gael, gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol.’.

**\*Angela Burns** 47

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Caroline Jones**

Section 23, page 11, line 27, after ‘Act’, insert ‘, save for section 16([*second subsection to be inserted by amendment 43*)]’,.

Adran 23, tudalen 11, llinell 27, ar ôl ‘hon’, mewnosoder ‘, ac eithrio adran 16([*yr ail is-adran sydd ‘w mewnosod gan welliant 43*)]’,.

**Vaughan Gething** 15

Schedule 3, page 22, after line 18, insert –

*‘The Welsh Language Standards (No. 7) Regulations 2018 (S.I. 2018/441)*

- [ ] (1) The Welsh Language Standards (No. 7) Regulations 2018 are amended as follows.
- (2) In regulation 3(2)(b) for “Community Health Councils and the Board of Community Health Councils in Wales requiring them” substitute “the Citizen Voice Body requiring it”.
- (3) In Schedule 6 –
- (a) omit the entry for the Board of Community Health Councils in Wales;
  - (b) omit the entry for Community Health Councils;
  - (c) at the appropriate place insert –

“the Citizen Voice Body for Health and Social Care, Wales (“*Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru*”)”.



Atodlen 3, tudalen 22, ar ôl llinell 20, mewnosoder –

*'Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 (O.S. 2018/441)*

- [ ] (1) Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 wedi eu diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn rheoliad 3(2)(b) yn lle “Cynghorau Iechyd Cymuned a Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt” rhodder “Corff Llais y Dinesydd sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo”.
- (3) Yn Atodlen 6 –
- (a) hepgorer y cofnod ar gyfer Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru;
  - (b) hepgorer y cofnod ar gyfer Cynghorau Iechyd Cymuned;
  - (c) yn y lle priodol mewnosoder –  
“Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru  
(*“the Citizen Voice Body for Health and Social Care, Wales”*)”.

